**EITEM 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **10 Gorffennaf 2017** |
| **TEITL** | **Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2017/18** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Garem Jackson**<br>**Pennaeth Addysg (Dros Dro)** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

1 Cytundebau Lefel Gwasanaeth

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer amrediad o wasanaethau i ysgolion, ac mae cyfnod y cytundebau wedi dod i ben 31/03/17. Felly mae'r cytundebau yn cael eu cynnig eto am y cyfnod 1/04/17 i 31/03/20.

Gan fod y gwaith o sefydlu trefn y Swyddfeydd Ardal yn parhau, rhoddodd y Fforwm Cyllideb Ysgolion ei sêl bendith ar ymestyn y CLGau 'Uned Gefnogi Addysg' (cynradd) a 'Personel, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol' presennol am flwyddyn ychwanegol (2017/18). Hefyd rhoddwyd sêl bendith ar ymestyn y CLG Cynnal Tiroedd am flwyddyn er mwyn i'r gwasanaeth allu seilio'r cytundeb efo pob ysgol ar ddadansoddiad o anghenion pob safle unigol (yn hytrach nag ar sail hanesyddol).

Gweler yn yr atodiad grynodeb o ymatebion yr ysgolion, a sylwadau'r ysgolion ar y gwahanol gytundebau.